

POLISI ADDYSG RHYW YSGOL TRYFAN

Rôl yr ysgol

1. Bydd pob aelod o'r staff sy'n ymwneud ag Addysg Rhyw yn derbyn hyfforddiant pan fo angen a ble mae'n bosibl.
2. Rhoddir cyfle i rieni dynnu eu plant o unrhyw agwedd ar Addysg Rhyw (neu o'r holl agweddau) heblaw am yr elfennau hynny sy'n rhan o ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Gwneir hynny drwy ysgrifennu at y Prifathro.
3. Bydd yr ysgol yn cyhoeddi yn ei phrosbectws, fanylion am gynnwys a threfniadaeth yr Addysg Rhyw a ddarperir.
4. Mae gan athrawon yr hawl i roi gwybodaeth am ddulliau atal-cenhedlu heb ganiatâd rhiant/rhieni, ond ddim yr hawl i roi cyngor i ferched unigol o dan 16 mlwydd oed. Dylai athrawon gynghori'r disgyblion i gael cyngor gan eu rhieni neu gan asiantaethau meddygol.
5. Mae Rhan 28 o'r "Local Government Act, 1988" yn gwahardd hyrwyddiad o gyfun-rywoliaeth, sut bynnag, nid yw hyn yn ofynnol i ysgolion. Nid yw'n gwahardd trafodaeth wrthrychol am gyfun-rywoliaeth yn y dosbarth (a fydd yn ofynnol yn ystod y drafodaeth am ledaeniad H.I.V./A.I.D.S.)

Amcanion

1. Bydd yr ysgol yn sicrhau fod pob disgybl (gan gynnwys y rhai gydag anghenion corfforol, addysgol ac emosiynol) yn cael cyfle i dderbyn rhaglen Addysg Rhyw gynhwysfawr.
2. Bydd yr ysgol yn sicrhau fod y rhaglen yn hyrwyddo pynciau moesol, ystyriaeth o rywioldeb a pherthynas bersonol gan ddatblygu sgiliau megis cyfathrebu a gwneud penderfyniadau.

Nodau

1. Cyflwyno'r rhaglen gyda sensitifrwydd tuag at gefndir amrywiol y disgyblion.
2. Darparu rhaglen Addysg Rhyw a fydd yn cynnwys addysg am heintiau ac afiechydon eraill a drosglwyddir yn rhywiol gan gynnwys A.I.D.S., H.I.V.
3. Darparu gwybodaeth am y broses o atgenhedlu.
4. Anelu at alluogi disgyblion i adnabod peryglon mathau neilltuol o ymddygiad a derbyn fod yna gyfrifoldeb o'r ddwy ochr mewn materion rhywiol.
5. Anelu at gael pobl ifanc i ddeall gwerth bywyd teuluol a goblygiadau bod yn rhiant.
6. Hyrwyddo disgyblion i dderbyn y gwahaniaeth yng nghyfradd tyfu a datblygu (corfforol, emosiynol a chymdeithasol) ac yn yr oedran ble mae blaen-lencyndod yn digwydd.

Cyfrinachedd

Dilynir polisi ysgol ar gyfrinachedd ac ar Amddiffyn Plant.

I grynhoi ni all athrawon/ gweithwyr proffesiynol gynnig nac addo cyfrinachedd yn enwedig mewn perthynas â datgeliadau personol.

Anogir dysgwyr i drafod gyda'u rhieni/ warcheidwaid a'u cefnogi i wneud hynny.

Sicrheir fod dysgwyr yn ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth cyfrinachol e.e. Cwnsela/nyrs ysgol.

Ymdrinnir â datgeliadau i athrawon yn yr unol â'r polisi Amddiffyn Plant

Cyflwyno Addysg Rhyw

Cyflwynir Addysg Rhyw i'r disgyblion yn ystod rhaglen Addysg Personol a Chymdeithasol (ABCh) y gwersi Gorwelion ac mewn pynciau penodol.

Mae'r rhaglen ABCh yn rhedeg o Flynyddoedd 7 hyd 13 gyda mewnbynnau penodol ac addas ar gyfer oed a datblygiad yr unigolyn ym mhob blwyddyn. Mae gan bob pwnc ei gyfraniad yn enwedig ar faterion moesol, gwerthoedd, bywyd teuluol a pherthynas.

Rheoli a threfnu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd

Mae gan y canlynol gyfrifoldebau penodol i fonitro ac adolygu'r ddarpariaeth ARhaPh:

- Y corff llywodraethu
- y pennaeth a'r arweinwyr uwch
- y cydlynnydd ABCh